**Gwahoddiad i dendro**
**Marchnata a Chyfathrebu**
**Mentrau Iaith Cymru**

**Cefnogaeth Marchnata a Chyfathrebu**

Mae Mentrau Iaith Cymru yn chwilio am gwmni allanol er mwyn cynnig:

1. adolygiad o anghenion marchnata a chyfathrebu swyddogion y Mentrau Iaith

2. 3 diwrnod hyfforddiant rhanbarthol ar farchnata a chyfathrebu i swyddogion y Mentrau Iaith

3. gwaith dwys i wella ansawdd ac effaith marchnata a chyfathrebu 5 Menter Iaith yn ôl y gofyn. (5 diwrnod gwaith) Gall y gwaith hyn gynnwys:

    a. helpu staff y Fenter i greu cynllun marchnata a chyfathrebu cyffredinol, neu un penodol ar gyfer digwyddiad/ymgyrch a'u helpu i integreiddio'r gwaith i fewn i'w hamserlen waith

    b. rhoi cyngor a hyfforddiant dwys ar elfennau penodol o gyfathrebu ble fo'r angen

Nod y cytundeb yw cysoni a gwella ansawdd marchnata a chyfathrebu cyffredinol rhwydwaith y Mentrau Iaith ar draws Cymru.

Dylid cwblhau'r gwaith o fewn cyfnod o **2 fis.**

Bydd y gwaith yn cael ei gydlynu gan Swyddog Datblygu MIC, Marged Rhys, sydd wedi ei lleoli ym mhrif swyddfa MIC yn Llanrwst.

Os oes gennych ddiddordeb i gyflawni'r gwaith uchod, gofynnir i chi **gyflwyno pris cyflawn am y gwaith**, ynghyd â **chefndir eich cwmni** a hefyd derbyn ***breakdown* o'r ffioedd** drwy nodi swm dyddiol hollgynhwysol (i gynnwys treuliau) ynghyd â **sawl diwrnod o waith sy'n cael eu cynnig**, a rhoi gwybod os ydy'ch cwmni wedi **cofrestru ar gyfer TAW** a rhoi'r manylion i gyd at ARWEINYDD TÎM MIC drwy e bost i post@mentrauiaith.cymru a hynny **erbyn 19/03/2018.**

Gobeithiwn hysbysu'r cwmni llwyddiannus erbyn 23/03/2018

Os am fwy o wybodaeth gellir cysylltu â'r swyddfa ar (01492 643401) neu e bostio:

Arweinydd Tim MIC
Iwan Hywel – iwanhywel@mentrauiaith.cymru

Neu

# Gwahoddiad i dendro
# Marchnata a Chyfathrebu
# Mentrau Iaith Cymru

Swyddog Datblygu MIC
Marged Rhys – marged@mentrauiaith.cymru

## Cyflwyniad i'r Mentrau Iaith

Mae'r Mentrau Iaith yn fudiadau cymunedol, gwirfoddol a deinamig sy'n hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws Cymru, ac mae **Mentrau Iaith Cymru** yn cefnogi eu gwaith yn genedlaethol i gynyddu'r defnydd o'r iaith yn ein cymunedau. Sefydlwyd Mentrau Iaith Cymru ym 1999 gan y Mentrau Iaith lleol gan fod yr angen wedi ei adnabod i gydgyfarfod yn rheolaidd, rhannu profiadau a gwybodaeth a rhoi enw a proffil i'r Mentrau Iaith gyda'i gilydd. Mae gwaith Mentrau Iaith Cymru yn eang ac yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar gyfleoedd ac anghenion y Mentrau Iaith, a datblygiadau o ran y Gymraeg.